# Pwyllgor Adfywio

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Chwefror, 2017

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mr. Robert G Parry OBE FRAgS (Cadeirydd)<br>Mr. Alwyn Rowlands (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Mri. John Griffith, T Ll Hughes MBE, W T Hughes, Victor Hughes, Carwyn Jones a R.Meirion Jones |
| **WRTH LAW:** | Trysorydd<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt yma yn ôl teitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Rheolydd Grantiau (JW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Mri J Arwel Roberts, Ieuan Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr. T. Victor Hughes – Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn<br>Mr. T.Ll. Hughes – Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Cafwyd datganiadau o ddiddordeb gan :-

Mr. Alwyn Rowlands – datganiad o ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 4 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2017/18 – Cais gan Ganolfan Hamdden Biwmares a'r cylch ac ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ar yr eitem.

Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn - datganiad o ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 4 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2017/18 – Cais gan Gwmni Tref Llangefni ac ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ar yr eitem.

Is-Gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn - datganiad o ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 4 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2017/18 – Cais gan Gyngor Tref Caergybi ac ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ar yr eitem.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror, 2017.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol :-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a oedd ynghlwm."**

## 4 CEISIADAU GRANTIAU MAWR 2017/18

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Trysorydd bod 31 o geisiadau wedi dod i law a'u trafod gan y Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 10 Chwefror, 2017. Penderfynodd y Pwyllgor roi 12 o'r ceisiadau ar restr fer ar gyfer eu hasesu'n fanylach. O ran yr 19 cais arall, ystyriwyd bod 9 yn addas fel ceisiadau ar gyfer grantiau Hamdden a Chymunedol (hyd at £8,000) a bod yr ymgeiswyr wedi cael gwybod y bydd eu ceisiadau'n cael eu trosglwyddo i'r broses honno. Ni chafodd y 10 cais arall eu cefnogi ac mae'r ymgeiswyr wedi cael gwybod am benderfyniad y Pwyllgor.

Cafwyd trafodaeth fanwl mewn perthynas â'r 12 cais a oedd ar y rhestr fer a **PHENDERFYNWYD argymell i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn yn y cyfarfod nesaf :-**

- **Bod y 12 cais am grant a oedd ar y rhestr fer yn cael eu cefnogi;**
- **Bod y Trysorydd yn cyflwyno adroddiad i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn gyda'r symiau a argymhellwyd ac a gytunwyd gan y Pwyllgor Adfywio.**

**Mr. Robert G Parry OBE FRAgS**
**Cadeirydd**